

PWYLLGOR CRAFFU'R AMGYLCHEDD AC ADFYWIO

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod o Bell, 15 Mehefin, 2021.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y Cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd Ms. B.E. Brooks (Cadeirydd); Y Cynghorydd Ms. S. Sivagnanam (Is-Gadeirydd) Cynghorydd V.J. Bailey, Mrs. P. Drake, G. John, M.G.J. Morgan, A.R. Robertson, L.O. Rowlands a S.T. Wiliam.

Hefyd yn bresennol - Y Cynghorwyr L. Burnett (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio) a P.G. King (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth).

EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd V.P. Driscoll.

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Mai, 2021 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 4. CYFNEWIDFA DRAFNIDIAETH DOCIAU Y BARRI WELTAG CAM DAU (CYF) -

ARGYMHELLWYD - cymeradwyo cynnwys adroddiad y Cabinet a phenderfyniad y Cabinet i fwrw ymlaen ag Opsiwn 2 - Cyfnewidfa Fysus (i'w lleoli i'r de o'r orsaf ar ran o faes parcio Swyddfeydd y Dociau), cyfleuster Parcio a Theithio ychwanegol (i'w lleoli i'r gogledd o blatfform yr Orsaf) a defnyddiau preswyl o bosibl gyda defnydd masnachol (i'w lleoli i'r gogledd-orllewin o'r orsaf).

Rheswm dros yr argymhelliad

Cefnogi penderfyniad y Cabinet i fwrw ymlaen ag Opsiwn 2.

EITEM AGENDA 5. PROSIECT ZERO - CYNLLUN HER NEWID HINSAWDD DRAFFT (MD) -

ARGYMHELLWYD -

- (1) Derbyn y Cynllun Her Newid yn yr Hinsawdd drafft diwygiedig sydd yn Atodiad A yr adroddiad.
- (2) Nodi'r adborth sydd yn Atodiad B yr adroddiad a gafwyd drwy'r ymgynghoriad diweddar a gynhaliwyd o 24 Mawrth tan 12 Mai 2021.
- (3) Nodi'r ymgysylltiad parhaus a gynhelir yn rhan o'r gwaith sy'n ymwneud â Phrosiect Sero.
- (4) Nodi canllaw newydd Sector Cyhoeddus Cymru ar gyfer adrodd ar garbon sero-net a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 24 Mai 2021 fel y disgrifir yng nghorff yr adroddiad.

Rhesymau dros yr argymhellion

- (1) Ar ôl ystyried y Cynllun drafft (Atodiad A).
- (2) Galluogi'r Pwyllgor i ystyried yr adborth a gafwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad ar y Cynllun drafft (Atodiad B).
- (3) Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am yr ymgysylltu parhaus a gynhelir yn rhan o Brosiect Sero.
- (4) Rhoi gwybod i'r Pwyllgor am gyhoeddi canllaw newydd Sector Cyhoeddus Cymru ar gyfer adrodd ar garbon sero-net.